MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

ARWEINYDD Y CYNGOR YN CAEL EI GWNEUD YN ARGLWYDDES AM OES

Mae'r Cynghorydd Debbie Wilcox - Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cael ei gwneud yn Arglwyddes am Oes.

Ei theitl fydd y Farwnes Wilcox o Gasnewydd a bydd yn eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi fel Arglwyddes sy'n gweithio.

Fe'i hanrhydeddwyd am ei chyfraniad rhagorol i addysg a llywodraeth leol.

Yn dilyn y cyhoeddiad, cadarnhaodd y Cynghorydd Wilcox y bydd yn ymddiswyddo fel Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd.

"Casnewydd yw fy nghartref a bydd fy ymrwymiad i'r ddinas yn parhau.

Fodd bynnag, pan fyddaf yn derbyn rôl rydw i'n ymroi iddi yn gyfan gwbl. Mae'n rhaid i arweinydd cyngor ymgolli ei hun yn y ddinas a gwaith yr awdurdod er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ac anodd.

"Wedi dweud hynny, byddaf yn parhau i wasanaethu fy ward tan etholiadau lleol 2022. Fel sawl cynghorydd mainc gefn sydd hefyd â swydd lawn amser, rydw i'n teimlo y gallaf barhau i gyfrannu llawer at waith fy ardal a delio gyda materion y ward yn effeithiol."

Bydd Grŵp Llafur y cyngor yn ethol Arweinydd newydd a gaiff ei benodi nei ei phenodi'n ffurfiol yng nghyfarfod llawn y cyngor ar 26 Tachwedd.

CYNNAU GOLEUADAU'R NADOLIG

Ffotograffiaeth Chris Tinsley

Ydych chi'n barod i fod yn rhan o ysbryd y Nadolig? Yna, cofiwch ymweld â'r dathliadau yng nghanol dinas Casnewydd pan fydd y goleuadau Nadolig yn cael eu cynnau – bydd yna hwyl a sbri i'r teulu cyfan.

Nodwch **ddydd Sadwrn, 16 Tachwedd** yn eich dyddiadur i'ch atgoffa i ddod i weld y goleuadau Nadolig yn cael eu cynnau yn ystod sioe wefreiddiol fydd yn cynnwys cerddoriaeth, adloniant, gwesteion enwog, ffair a thân gwyllt.

Trefnir **'Cyfrif i Lawr i'r Nadolig'** gan Ranbarth Gwella Busnesau Casnewydd Nawr (BID) ar y cyd â Friars Walk, Gorsaf Radio Dinas Casnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd. Bydd yr hwyl Nadoligaidd yn dechrau am 2pm; bydd y goleuadau Nadoligaidd yn cael eu cynnau am 5.15pm a bydd yr arddangosfa tân gwyllt yn dechrau am 5.30pm. Bydd prif lwyfan y digwyddiad yng ngwaelod Charles Street; cewch fwynhau'r ffair ar hyd Commercial Street, y Stryd Fawr a glan yr afon.

Er mwyn sicrhau diogelwch ymwelwyr, bydd y ffyrdd ar gau o 5pm ddydd Gwener 15 Tachwedd tan hanner nos ddydd Sadwrn, 16 Tachwedd, ar hyd y Stryd Fawr a Griffin Street ac o 6am tan 9pm ar ddydd Sadwrn 16 Tachwedd ar hyd Commercial Street a Charles Street. Bydd y wybodaeth ynghylch yr eitemau cerddorol ac enwau'r enwogion fydd yn helpu Maer Casnewydd, y Cynghorydd William J Routley, i gynnau'r goleuadau Nadolig yn cael eu cyhoeddi yn nes at y diwrnod mawr.

Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb sydd wedi helpu i drefnu'r digwyddiad. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu ymwelwyr i ymuno â'r dathliadau Nadoligaidd.

Ar **Ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr** bydd ysbryd y Nadolig yn fyw ac yn iach gyda diwrnod llawn o ddigwyddiadau tymhorol, rhad ac am ddim yn cael eu cynnal ledled Caerllion rhwng **10am a 6pm.**

Bydd sesiynau adrodd straeon Nadolig traddodiadol ym Maddonau'r Gaer Rufeinig gyda'r adroddwr storïau Guto Dafis. Cynhelir y sesiynau am 11am, 1pm a 3pm.

Dywed y trefnwyr bod lleoedd yn brin felly cynghorir unrhyw un sydd am ddod i wrando i gyrraedd yn gynnar.

Hefyd, cynhelir digwyddiad 'Soldiers Saturnalia' yn Amgueddfa'r Llengoedd Rhufeinig gyda gweithgareddau wedi'u trefnu i ddiddanu'r ymwelwyr.

Os ydych chi'n chwilio am ddanteithion neu anrhegion, yna bydd y Farchnad Ffermwyr boblogaidd ar agor yn Neuadd y Dref o 10am tan 4pm gyda phob math o stondinau cynnyrch bwyd a chrefftwyr lleol yn llawn rhoddion ac anrhegion Nadoligaidd.

Cadwch lygad allan am Sion Corn hefyd – mae wedi addo y bydd yn dod i'r digwyddiad!

A beth am ddiwedd gwirioneddol Nadoligaidd i'r diwrnod? Ymunwch yn ysbryd y Nadolig gyda Chanu Carolau ar y Comin o tua 4.30pm ymlaen.

Cofiwch, os na fydd y tywydd yn ffafriol, bydd amseroedd rhai digwyddiadau'n cael eu newid er mwyn ymdopi â'r amodau.

GORYMDAITH A GWASANAETH COFFA BLYNYDDOL

Bydd Gorymdaith a Gwasanaeth blynyddol dydd y cofio yn digwydd ddydd Sul 10 Tachwedd yng nghanol dinas Casnewydd.

Bydd Band Stedfast yn arwain yr orymdaith, a fydd yn gadael o ben uchaf y Stryd Fawr ac yn mynd tua'r Cofadail, Clarence Place.

Bydd y gwasanaeth, ar arweinir gan y Parchedig Ganon Dr Stephen James, yn digwydd yng Nghofadail Casnewydd am 10.58am a bydd y gynau yn tanio am 11am i nodi cychwyn dau funud o dawelwch.

Yn dilyn seremoni gosod torchau a gwasanaeth, bydd yr Arglwydd Is-gapten, Maer Casnewydd, yr Uwch Sirydd, Swyddog ag Awdurdod Catrawd 104 ynghyd â pharti'r pwysigion yn gwneud y saliwt wrth i'r orymdaith fynd heibio.

Mae'r rhai a wahoddir i gymryd rhan yn yr orymdaith yn cynnwys y Cludwyr Arferol, cyn Filwyr, aelodau'r Lleng Brydeinig Frenhinol, Cynghorwyr, cymdeithasau, y Lluoedd Arfog, y Gwasanaethau Brys a grwpiau ieuenctid.

HELPWCH NI I DDATHLU 10 BLYNEDD ARDDERCHOG O'R WYL FWYD

Bydd Gŵyl Fwyd Casnewydd, a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd yn dathlu ei degfed pen-blwydd y flwyddyn nesaf.

Cefnogwyd y digwyddiad poblogaidd eleni gan AGB Casnewydd Nawr, Friars Walk, Casnewydd Fyw a'r Celtic Manor ac roedd hefyd yn cynnwys Caffi Horton a Phobl a helpodd i gynnal arddangosiadau'r cogyddion a chystadleuaeth flynyddol Teenchef.

Ac ar gyfer digwyddiad 2020, mae'r cyngor yn gobeithio denu hyd yn oed mwy o noddwyr i'r llwyfan i ddigwyddiad mwy a gwell, i haeddu dathliad deg blwydd oed.

Eleni, codwyd 74 stondin yng nghanol y ddinas, ar hyd y Stryd Fawr, Westgate Square, John Frost Square a Friars Walk, gan ddenu miloedd o ymwelwyr o bob oed gyda bwyd a diod deniadol i'w blasu a bwyta.

Roedd y strydoedd yn fyw gydag actau adloniannol a chymerodd plant ran mewn llawer o ddigwyddiadau hwyl!

Roedd Marchnad Casnewydd eto yn nyth o weithgarwch ac roedd gan un o noddwyr AGB Casnewydd Nawr ei barth ei hun yn yr oriel, lle roedd yr arddangosiadau deniadol gan y cogyddion yn digwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Rydym wrth ein boddau yr ystyrir Gŵyl Fwyd Casnewydd eleni yn llwyddiant mawr.

"Hoffwn ddiolch i'n holl noddwyr a chefnogwyr sydd wedi helpu'r digwyddiad i dyfu o ran poblogrwydd a maint dros y blynyddoedd.

"Ac rwy'n gobeithio y daw llawer mwy o fusnesau a grwpiau ymlaen i helpu'r flwyddyn nesaf, y pen-blwydd yn ddeg oed, i fod y fwyaf a'r orau erioed."

Am ragor o wybodaeth, neu os hoffech gymryd rhan yn nigwyddiad y pen-blwydd yn 10 oed yn 2020, ewch i **www.newportfoodfestival.co.uk.**

GWOBR AUR Y LLUOEDD ARFOG AR GYFER Y CYNGOR

Roedd Cyngor Dinas Casnewydd ymhlith y cyflogwyr a gydnabuwyd am eu cymorth rhagorol i gymuned y Lluoedd Arfog.

Cafodd Wobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr, bathodyn anrhydedd uchaf y Weinidogaeth Amddiffyn ar gyfer y rhai sy'n cyflogi ac yn cefnogi'r rhai sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae cyflogwyr wedi cael gwobrau am fentrau megis cyflogi cyn-filwyr, cefnogi unigolion sy'n pontio o'r lluoedd arfog i yrfa newydd a rhoi hyblygrwydd i Filwyr Wrth Gefn.

Dywedodd y gweinidog amddiffyn, Ben Wallace:

"Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod cymorth rhagorol i'n lluoedd arfog gan gyflogwyr trwy Brydain a hoffwn ddiolch a llongyfarch pob un.

"Waeth beth yw'r maint, y lleoliad neu'r sector, mae cyflogi gweithwyr a fu yn y lluoedd arfog yn dda i fusnes ac eleni, rydym wedi dyblu nifer y gwobrau a gyflwynom i gydnabod y cymorth gwych y maent yn eu rhoi."

Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael yng Nghasnewydd, ewch i **www.newport.gov.uk/cy/About-Newport/Armed-forces/Armed-forces.aspx**

HYGYRCHEDD YSGOLION

Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer cynyddu hygyrchedd ysgolion Casnewydd i ddisgyblion ag anableddau.

Datblygwyd ei weledigaeth ar gyfer addysg gynhwysol a chadarnhaol i bawb gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol addysg, grwpiau'r trydydd sector a phobl ifanc, a gellir ei weld yma: **www.newport.gov.uk/schools**

CASNEWYDD YN DATHLU HANES MENYWOD

Cafodd gweithiau celf diweddaraf Casnewydd, yn dathlu dros 100 mlynedd o gyflawniadau menywod, eu datgelu ym mis Medi.

Ariannwyd y project Hanes Menywod, yn Rhodfa Sant Paul, Commercial Street, gan y Loteri Dreftadaeth Genedlaethol.

Comisiynodd Cyngor Dinas Casnewydd yr artist Stephanie Roberts i weithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol ar ddylunio a chreu chwe mosaig sy'n anrhydeddu menywod lleol, gan gynnwys Siartwyr a swffragetiaid, yn ogystal â modelau rôl mwy diweddar.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Mudd, Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai *Mae'r mosaigau yn adrodd stori rôl newidiol menywod Casnewydd o'r Siartwyr hyd at heddiw.*

"Hoffwn ddiolch i Stephanie ac i bawb sydd wedi cyfrannu - a'u llongyfarch am greu cofeb mor wych sy'n portreadu llawer o'r rolau a gyflawnwyd gan fenywod a'u penderfyniad digamsyniol ac ymrwymiad cadarn i sbarduno newid."

Mae wedi ymuno â gwaith celf arall yn Rhodfa Sant Pawl, sy'n coffau rôl menywod Casnewydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

For more information about St Paul's Walk and the artworks visit **www.newport.gov.uk/stpaulswalkmosaic**

GWEFRU CERBYDAU TRYDAN

Mae disgwyl i Gasnewydd gael 16 o bwyntiau gwefru ychwanegol ledled y ddinas diolch i gyllid.

Mae awdurdodau lleol Gwent wedi llwyddo i gael £459,000 gan Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (SCAL) i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydanol mewn meysydd parcio mewn ardaloedd preswyl.

Diolch i'r cyllid bydd yr awdurdodau lleol (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) yn gweithio tuag at osod seilwaith gwefru cerbydau trydanol ledled meysydd parcio'r awdurdod lleol yn Gwent.

Bydd y pwyntiau gwefru cerbydau trydanol yn cael eu gosod mewn meysydd parcio ger ardaloedd preswyl i gefnogi preswylwyr sydd heb barcio oddi ar y stryd i symud at gerbydau trydanol.

Dylai'r pwyntiau newydd weithio erbyn Gwanwyn 2020, caiff manylion eu cyhoeddi'n nes at yr adeg honno.

BREXIT

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau cyfagos a sefydliadau eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal yn ddi-dor wedi Brexit.

Bydd goblygiadau i unigolion, cymunedau a busnesau.

Os yw dinesydd yr UE am aros yn y DU, bydd angen iddo wneud cais i'r cynllun preswylio'n sefydlog. Mae pecyn cymorth ar gael ac mae gwasanaeth darllen dros ddogfennau ar gael drwy Gyngor Dinas Casnewydd.

Gall busnesau hefyd gael canllawiau gan lywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog am newidiadau allai effeithio arnynt.

Dysgwch fwy yn www.newport.gov.uk/brexit

PENODI PRIF WEITHREDWR DROS DRO NEWYDD

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi penodi Sheila Davies yn brif weithredwr dros dro.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd y cyngor:

"Mae gan Sheila dros 25 mlynedd o brofiad o weithio mewn llywodraeth leol a'r sector datblygu economaidd ac adfywio.

"Ynghyd â bod wedi gweithio gyda'n hawdurdod mewn sefyllfa strategol, a'i hanes dihafal o gyflawni projectau mawr i'r ddinas, rydym yn gyffrous iawn yn ei chroesawu'n ôl."

Ceisiodd y cyngor recriwtio prif weithredwr interim ar ôl i Will Godfrey adael.

Gwnaed y penodiad gan banel Aelodau trawsbleidiol ac mae ar gyfer cyfnod cychwynnol o chwe mis.

Sheila Davies, canol, gyda'r Arweinydd Debbie Cox a'r panel

"Mae fy mywyd wedi newid - mewn ffordd wych." Dyna farn un o ofalwyr maeth y cyngor.

Cynigiwn becyn gwych i'n gofalwyr, gan gynnwys gweithiwr cymdeithasol penodedig, cymorth 24 awr, gweithgareddau, hyfforddiant, offer, lwfans a rhwydweithiau cymorth.

Nid yw gofalwyr maeth yn gyflogeion eithr yn bobl arbennig sy'n cyflawni rôl arbennig iawn, sy'n gofalu am ein plant yn ystod adeg anodd yn eu bywydau.

Gall fod yn foddhaus iawn fel yr eglurodd un o'n gofalwyr, Clare.

"Dydy hi ddim yn dweud gormod dweud bod maethu wedi newid fy mywyd yn llwyr. Dwi'n maethu baban, person ifanc yn ei arddegau a pherson ifanc sy'n ceisio lloches. Roeddwn i'n cerdded gyda'r pram y diwrnod o'r blaen, yn siarad ag un o'r plant ac yn gwylio un arall yn chwarae â'm mab mabwysiedig ac fe'n 'nharodd fod fy mywyd yn gwbl wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd - ond mewn ffordd fendigedig!

"Mae maethu cymaint yn fwy na chael 'ystafell sbâr a chalon llawn cariad'. Mae'n rhwystredig, yn heriol, yn hwyl, yn emosiynol, yn flinedig, yn fywiog ac yn gwbl werth chweil. I unrhyw un sy'n ystyried maethu, ewch amdani a gweld sut yr aiff hi."

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod yn ofalwr maeth a sicrhau y gall plant o Gasnewydd aros yn yr ardal leol.

Fel gofalwr maeth bydd angen i chi:

- lle i ofalu am blentyn, p'un ai a ydych chi'n byw mewn fflat neu dŷ, yn berchennog neu'n rhentu
- gallu agor eich calon a'ch cartref i blentyn neu berson ifanc a rhoi safon dda o ofal mewn amgylchedd diogel
- bod yn hyblyg i anghenion y plentyn a gallu ei gynorthwyo ag unrhyw anawsterau a allai fod ganddo
- gallwch fod yn briod, mewn partneriaeth, yn cyd-fyw neu'n sengl
- gallwch fod mewn perthynas unrhyw
- mae amynedd, goddefgarwch a synnwyr da o ddigrifwch oll yn hanfodol

Mae pob plentyn yn wahanol, waeth beth yw ei gefndir ethnig, ffydd, diwylliant, rhywedd, anabledd neu oedran. Gofalwn am blant o'u geni i 18 oed.

Os ydych chi'n ystyried maethu, cysylltwch â ni a gallwn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch (01633) 210272 neu i ddysgu mwy ewch i www.newport.gov.uk/fostering

ALLECH CHI WNEUD GWAHANIAETH I FYWYD PLENTYN?

SIOPWYR CASNEWYDD YN DEWIS Y DDINAS

Gwnaeth mwy na 55 y cant o drigolion Casnewydd eu siopa, ar wahân i fwyd, yn y ddinas yn 2018 - cynnydd o 15 y cant oddi ar 2010.

Canfu'r un ymchwil, gan Nexus Planning, i wariant gan drigolion Casnewydd yng Nghaerdydd ostwng yn sylweddol o 25 y cant yn 2010 i 8.7 y cant yn 2018, ac o 16.9 y cant i 6.9 y cant yng Nghwmbrân.

Yn 2010, cyfran y farchnad i ganol y ddinas, cyn agor Friar's Walk, oedd 20.7 y cant, ac yn 2018 roedd yn 24.95 y cant - y brif atgynfa i drigolion. Gwelodd Parc Manwerthu Casnewydd gynnydd o saith y cant i 14.7 y cant.

Canfu ymchwil ddiweddar gan y Cwmni Data Lleol fod gan Gasnewydd ganran uwch o siopau annibynnol na Chaerdydd a Chwmbrân.

CANFOD EIN TREFTADAETH NATURIOL

Mae miloedd o oedolion a phlant wedi cymryd rhan mewn projectau fel rhan o waith Partneriaeth Tirlun Living Levels sydd am ail-greu, gwella a dathlu Gwastatir hanesyddol Gwent er mwynhad pawb.

Mae'r rhain wedi cynnwys mynd â 253 o ddisgyblion i fod yn rhan o Frwydr y Gwenyn fel rhan o broject gwenyn clwstwr ac eraill yn mwyhau gweithdai'r Awyr Fawr.

Mae projectau'n helaeth iawn o arddangosfa a dehongliad newydd yn Eglwys Bishton yn chwilio am safleoedd i greu cynefinoedd bywyd gwyllt i beillwyr. Cyfrannodd mwy na 200 o bobl mewn pedwar 'bioflits'.

I ddysgu mwy am y rhain a llawer mwy ewch i **www.livinglevels.org.uk;** dilynwch ar **@ourlivinglevels neu Our Living Levels.**

BETH YW DYFODOL CLINIGOL?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)) yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i 639,000 o bobl sy'n byw yng Ngwent.

Dyfodol Clinigol yw ei gynllun am wasanaethau gofal ac iechyd cynaliadwy i'r GIG cyfan ledled yr ardal. Y nod yw cynnig gofal diogel o ansawdd a chynnig cymaint ohono yn y cartref, neu mor agos ato â phosibl; i wella iechyd a llesiant y boblogaeth; lleihau anghydraddoldeb iechyd a sicrhau y gall barhau i wneud hyn.

Mae angen i wasanaethau newid gan fod datblygiadau mewn gofal iechyd yn golygu bod llawer ohonom ni'n byw'n hirach ac yn byw bywydau mwy actif; ond gall heneiddio hefyd arwain at ystod o glefydau a heriau iechyd. Mae BIPAB bellach yn trin mwy pobl nag erioed ac, o ganlyniad, mae angen iddo newid y ffordd y mae'n gwneud hyn.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen bod ganddo'r staff cywir yn y lle cywir i gynnig y safonau uchaf o ofal.

Gan weithio gydag ystod o bartneriaid, mae BIPAB yn annog ac yn cefnogi ein cleifion a'r cyhoedd i aros yn iach.

Pan fo angen i bobl gael eu derbyn i'r ysbyty neu aros yno, bydd ysbytai cyfredol - megis Ysbyty Brenhinol Gwent- yn parhau i ddarparu gwasanaethau lleol megis diagnosio clefydau ac anhwylderau, apwyntiadau cleifion allanol a rhai llawdriniaethau llai cymhleth.

Caiff y bobl hynny sy'n ddifrifol sâl, y mae angen arnynt ofal arbenigol neu gritigol iawn, eu trin yn Ysbyty Athrofaol The Grange, Llanfrechfa, Cwmbrân, y disgwylir iddo agor yng ngwanwyn 2021.

Byddwn ni'n parhau i siarad â chi am Ddyfodol Clinigol ac mae mwy o wybodaeth yn **www.aneurinbevanhb.wales.nhs**

@aneurinbevanUHB ar @ClinicalFutures

AneurinBevanHealth Board

Aneurin_bevan_uhbon

HWB CASGLU SBWRIEL

Mae Caru Cymru yn broject partneriaeth blaenllaw newydd sy'n mynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol sydd yn bwysig iawn i gymunedau ledled Cymru.

Mae'r project a ariennir am dair blynedd yn gydweithrediad rhwng yr elusen amgylcheddol, Cadwch Gymru'n Daclus a'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r canolbwynt ar wella ansawdd amgylcheddol lleol, gan gynnig atebion cynaliadwy ac atal sbwriel wrth ei wraidd.

Yn rhan o Caru Cymru, mae hwb newydd wedi'i sefydlu yn Llyfrgell Maendy, yn 79 Chepstow Road, Casnewydd, fydd yn galluogi'r cyhoedd, grwpiau cymunedol a busnesau i fenthyca offer codi sbwriel i lanhau eu hardal leol.

Bydd mynediad at offer, gan gynnwys ffyn codi sbwriel, siacedi llachar a bagiau am ddim i gasglu gwastraff ac eitemau y gellir eu hailgylchu hefyd yn helpu grwpiau cyfredol a newydd i ddod yn fwy cynaliadwy a'u galluogi i weithio'n annibynnol.

I archebu offer o flaen llaw gall pobl gysylltu â: **admin@maindee.org** (neu gallwch fynd i'r llyfrgell).

Yr oriau agor yw 10am-5pm ar ddydd Llun, dydd Iau a dydd Gwener; 10am - canol dydd ar ddydd Mercher a 10am-1pm ar ddydd Sadwrn.

Ymddiriedolwyr maindee unlimited cynrychiolwyr a gwirfoddolwyr cadwch gymru'n daclus sy'n rhan o'r project hwb sbwriel

LLWYBR DIOGELACH DROS LWYBR TRENAU CYFLYMDER UCHEL

Mae llwybr cyhoeddus a oedd yn mynd â cherddwyr dros lwybrau trenau cyflymder uchel dros groesfan reilffordd bellach wedi'i wyro diolch i broject gan Gyngor Dinas Casnewydd a Network Rail

Mae'r llwybr cerdded ym Maerun wedi'i ymestyn ac mae bellach yn defnyddio pont gyfagos i greu llwybr sy'n llawer mwy diogel i ddefnyddwyr.

Roedd Network Rail, gyda chefnogaeth y Swyddfa Rheoliadau Rheilffordd, wedi cynnal ymgyrch genedlaethol i dynnu sylw at beryglon croesfannau rheilffordd trwy'r rhwydwaith rheilffordd.

Y nod oedd dileu'r risg o gerddwyr yn cael eu taro gan drenau cyflymder uchel. Gan weithio ochr yn ochr â Network Rail a pherchenogion tir lleol, crëwyd y llwybr amgen.

Mae'r llwybr cerdded bellach yn arwain o Whitethorn Way tua'r de ar hyd llwybr cefn gwlad caeedig dymunol cyn croesi'r llinell rheilffordd dros y bont sydd wedi ei gwella.

Wedyn mae'r llwybr yn parhau tuag at yr arfordir gan ymuno â Wentloog Road, sy'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr ymuno â Llwybr Arfordir Cymru.

PROJECT DIGARTREF

Ym mis Medi, cyhoeddodd y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol, Julie James, £300,000 ar gyfer project Tŷ yn Gyntaf blaenllaw yng Nghasnewydd.

Gan weithio gyda'r Cyngor, bydd Pobl yn gweithredu'r project ar gyfer 25 person sydd â hanes o fod yn ddigartref dro ar ôl tro a'u helpu i mewn i lety hirdymor.

Mae Tŷ yn Gyntaf yn cefnogi pobl y mae angen arnyn nhw lefelau sylweddol o help i symud i ffwrdd o ddigartrefedd. Cynigir i bobl le i fyw gyda help hirdymor wedi'i deilwra i reoli eu tenantiaeth yn annibynnol.

Dywedodd Julie James *"Rydyn ni'n gwybod nad Tai Cymorth yw'r perth cywir i bob person heb gartref - mae angen iddo fod yn rhan o ganolbwynt strategaeth ehangach ar ddulliau ailgartrefu cyflym gan gynnwys dulliau tai â chymorth ac arweinir gan dai eraill. Ond mae'n chwarae rôl bwysig mewn cefnogi pobl, yn enwedig y rheiny sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd ers hir, sydd ein rheswm dros gefnogi'r project hwn yng Nghasnewydd yn rhan o'n dull cenedlaethol sy'n ymestyn o ymwreiddio Tŷ yn Gyntaf yng Nghymru."*

AROLYGIAD CADARNHAOL ESTYN YN YSGOL GYNRADD SOMERTON

Bu arolygiad cadarnhaol iawn gan Estyn yn Ysgol Gynradd Somerton ar ddechrau'r flwyddyn hon.

Mae'r adroddiad ar yr ymweliad ar 24-27 Mehefin ar gael ar wefan Estyn.

Mae adroddiad Estyn yn dathlu effaith gwaith caled staff, llywodraethwyr a disgyblion a gwelodd fod safonau'n dda yn gyffredinol, bod llesiant disgyblion yn dda, bod profiadau o addysgu a dysgu'n dda a bod gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth yn rhagorol.

Cyflwynodd yr ysgol ddwy astudiaeth achos arfer gorau, a gyhoeddir ar wefan Estyn. Mae un yn archwilio arfer yr ysgol o reoli anghenion emosiynol disgyblion ac mae'r un arall yn esbonio sut mae cydweithredu ag Ysgol Gynradd Eveswell wedi helpu i wella safonau ac wedi datblygu staff yn y ddwy ysgol.

Mae ysgol Gynradd Somerton wedi bod yn gwella'n barhaol ers 2016. Gwelodd Estyn fod gan staff ddisgwyliadau uchel a bod yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu gofalgar a meithringar i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae cyfleoedd gwych i staff ddatblygu. Mae cenhadaeth yr ysgol, 'parchus, diogel, llwyddiannus' wedi'i rhannu a'i deall gan bawb yn yr ysgol.

Mae'n ffurfio sail y perthnasoedd a'r arweiniad cadarnhaol sy'n galluogi disgyblion i gyflawni canlyniadau da.

GWEFAN NEWYDD I'R DDINAS

Gwefan newydd â'r nod o ddenu mwy o fusnesau ac ymwelwyr i'r ddinas.

Mae gwefan Dinas Casnewydd - **www.cityofnewport.wales** - yn tynny sylw at Gasnewydd fel lleoliad gwych ar gyfer busnesau newydd a sefydledig, gyda llawer o gyngor a chymorth arbenigol i'w cael, yn ogystal â hyrwyddo'r ddinas yn ddewis cyntaf i drefnwyr cynadleddau.

Mae'r wefan hefyd yn dangos atyniadau gwych Casnewydd i ymwelwyr megis Tŷ Tredegar, y Warchodfa Gwlyptiroedd; y Pedwar Loc ar Ddeg a Chaerllion, ac yn cynnig gwybodaeth i helpu cerddwyr a beicwyr i fanteisio i'r eithaf ar



y wlad syfrdanol o amgylch.

Mae darparwyr llety lleol i'w gweld, gan gynnwys gwestai, gwely a brecwast, llety hunanarlwyo a ffermydd a mae detholiad o leoedd i fwyta ynddynt yng Nghasnewydd ac o'i chwmpas.

Mae'r wefan wedi datblygu o waith grŵp sy'n cynrychioli busnesau a thwristiaeth yng Nghaerdydd sy'n cwrdd yn rheolaidd â Chyngor Dinas Casnewydd i drafod sut mae hyrwyddo'r ddinas yn gyrchfan a ffefrir yn y ffordd orau. **Ewch i www.cityofnewport.wales**

CARTREF CŴN DINAS CASNEWYDD

Disgwylir i barc ymarfer corff i gŵn gael ei agor gan Gyngor Dinas Casnewydd, diolch i gyfraniad hael gan y partneriaid elusen, Friends of the Dogs Wales.

Mae'r safle dwy erw wrth Gartref Cŵn Dinas Casnewydd ym Mharc Coronation yn Stephenson Street yn agos at y Bont Gludo eiconig.

Yn y misoedd diwethaf, mae'r ardal ymarfer corff wedi'i defnyddio'n rhan o dreial gan dîm y cartref cŵn a'i grŵp cerdded gwirfoddol partner a drefnir gan Opt to Adopt yng Nghasnewydd i roi ymarfer corff i gŵn strae ac wedi'u gadael maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.

Ac ym mis Medi, cafodd eu gwaith caled o gychwyn y project ei gydnabod gan RSPCA Cymru a roddodd i'r cartref Wobr Arloeswr am y cynllun.

Hefyd cafodd y cartref wobr Aur RSPCA Cymru yn adran Ôl-droed cŵn Strae y gwobrau PawPrints blynyddol.

Ar ôl i'r parc ymarfer corff gael ei agor yn ffurfiol i drigolion Casnewydd sydd â chŵn agored i niwed, er enghraifft cŵn sy'n debygol o redeg i ffwrdd, sy'n swil ac a allai gael eu hymosod gan gŵn eraill neu i'r rheiny sydd â chi gyda phroblemau ymddygiadol neu sy'n ymosodol, bydd y cyfleuster yn cynnig amgylchedd diogel lle gall y ci redeg yn rhydd.

Bydd perchenogion cŵn yn gallu cadw dyddiad ac amser a thalu i ddefnyddio'r maes ar-lein.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Ray Truman, yr aelod cabinet dros drwydded a rheoleiddio, staff a gwirfoddolwyr am gael y gwobrau a chanmolodd bawb am eu gwaith caled o ran sicrhau bod y cytiau cŵn yn cael eu rhedeg heb broblemau a bod cŵn nad oes eu heisiau'n cael y gofal sydd ei angen arnyn nhw.

"Rydym yn gwybod bydd yr ardal hon yn cynnig lle diogel i berchenogion cŵn a'u hanifeiliaid anwes ymarfer corff ynddo heb boeni am beidio â chael eu cŵn ar dennyn ac efallai'n rhedeg i ffwrdd neu bod yn berygl i gŵn/pobl eraill.

"Hefyd mae gwobrau RSPCA yn gydnabyddiaeth o'r gwaith caled parhaol sy'n cael ei wneud gan ein staff sy'n sicrhau bod cŵn strae'n cael y gofal sydd ei angen arnyn nhw. Rydyn ni hefyd yn falch o nifer y cŵn sy'n gallu cael eu hail-gartrefu."

HYBIAU CYMDOGOL YN GWASANAETHU'R GYMUNED

Mae ystod o wasanaethau hanfodol yn cael eu darparu ar stepen drysau pobl yn dilyn lansio model "prif ganolfan a lloerennau" newydd.

Mae gwaith rheoli wedi'i symleiddio a bydd yr agwedd newydd yn golygu agwedd fwy ar y cyd i'r trigolion hynny y mae angen arnynt gymorth mwy nag un gwasanaeth.

Yn rhan o fodel cyflawni newydd, mae gwaith adnewyddu mawr wedi'i wneud yng Nghanolfan Ringland. Mae yng nghanol Hwb y Dwyrain sy'n cynnwys Alway, Dwyrain Casnewydd (Parc Moorland), Canolfan Hope Somerton a Chanolfan Beaufort yn St Julian.

Mae'r rhai eraill yn yr Hwb Canolog yng Nghanolfan Pill Mill gyda lloerennau yn Llyfrgell Old Pill, Sea Breeze a Stow Hill; Hwb y Gogledd yn Y Betws gyda Malpas a Shaftesbury; Hwb y Gorllewin ym Maesglas gyda chanolfannau Gaer a Dyffryn.

Yn ogystal â gwasanaethau cyngor, caiff yr hybiau eu defnyddio gan sefydliadau partner hefyd.

Ringland oedd y lleoliad cyntaf i gael ei adnewyddu'n fawr yn rhan o'r rhaglen ond y bwriad yw gwneud gwaith gwella yn yr hybiau eraill, yn amodol ar gyllid.

Mae'r adeilad wedi'i drawsnewid ac mae'r gwelliannau'n cynnwys llyfrgell wedi'i adnewyddu.

Enillodd y cwmni lleol TPS y contract i addasu a moderneiddio'r ganolfan gymunedol fydd yn gartref i lawer o wasanaethau cymunedol fel Gwaith a Sgiliau, Gwasanaethau Ieuenctid, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau Gwydn, llyfrgelloedd, Dechrau'n Deg a sefydliadau partner eraill.

Yn flaenorol, gweithredwyd y gwasanaethau hyn ar wahân mewn nifer o leoliadau ond byddant bellach yn cael eu rheoli trwy'r brif ganolfan a lloerennau.

Dywedodd arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox:

"Mae'r model prif ganolfan gymunedol wedi gwella'n sylweddol y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu i drigolion. Yn flaenorol, roedd angen i bobl fynd i nifer o safleoedd gwahanol i gael mynediad at wasanaethau, ac o bosib golli allan ar gymorth allai wneud gwahaniaeth go iawn i'w bywydau.

"Drwy reoli'r gwasanaethau hynny i gyd o'r hyb, bydd un pwynt cyswllt i deuluoedd ac unigolion fydd yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth iawn, yn y lle iawn."

Dywedodd y Cynghorydd David Mayer, yr aelod cabinet dros y gymuned ac adnoddau:

"Bydd trigolion sy'n defnyddio canolfan Ringland yn gwerthfawrogi'r amgylchedd gwell.

"Mae'r model wedi creu siop un stop leol a bydd yn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i fyw bywydau boddhaol a chynhyrchiol."

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor www.newport.gov.uk

YMGYNGHORIAD AR Y GYLLIDEB

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnal ymgynghoriad gyda thrigolion wrth iddo baratoi i fynd i'r afael â'r pwysau uchel a gyflwynwyd gan gyllideb eleni.

Mae'r Cyngor yn darparu dros 800 o wasanaethau i dros 151,000 o bobl sy'n byw mewn mwy na 65,000 o gartrefi.

Ar adeg argraffu, roedd y Cyngor yn aros i glywed gan Lywodraeth Cymru o ran sut caiff ei gyllideb ei ddyrannu ar gyfer 2020/21.

Mae galwadau am wasanaethau'n parhau i gynyddu tra nad yw ariannu gan y llywodraeth wedi newid dros y chwe blynedd ddiwethaf.

FFOCWS AR SAFONAU MASNACH

Mae busnesau yng Nghasnewydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau a'r cynhyrchion y maent yn eu cynnig i gwsmeriaid o'r ansawdd cywir a'r pris cywir a bod eu busnes yn gweithredu'n unol â deddfau masnach diogel a theg.

Mae'r Nadolig yn agosáu sy'n golygu y bydd twyll fasnachwyr yn manteisio ar yr adeg hon o'r flwyddyn i weithredu mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru.

Nid yw Casnewydd yn eithriad a dyma'r rheswm dros alw swyddogion safonau masnach i mewn os daw cwsmer yn ddioddefwr gweithredoedd o'r fath.

Yn y 12 mis diwethaf, mae sawl cwmni, y mae llawer ohonynt yn gweithredu ar-lein, wedi teimlo dicter y llysoedd am werthu nwyddau anniogel.

Mae swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill yn ogystal â'r Tîm Ymchwiliadau Rhanbarthol (Cymru), Scambusters yn ffurfiol, i sicrhau bod troseddwyr yn cael eu dwyn gerbron y llys.

Mae gan achosion rhyngwladol ganlyniadau sy'n bellgyrhaeddol ac mae'r tîm wedi helpu i ddod o hyd i weithrediad mewnfudo yn Tsieina sy'n gwerthu cynhyrchion peryglus, anghyfreithlon a ffug trwy ddefnyddio cyfrifon banc a dogfennaeth ddiogelwch twyllodrus i ategu gwerthu eu cynhyrchion.

Talwyd £119 miliwn trwy PayPal ar ei ben ei hun i'r gweithrediad hwn. Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu ar gyfer erlyniad sy'n dod.

Arweiniodd achosion agosach atom yr ymchwiliwyd iddynt yn y flwyddyn ddiwethaf at werthwr DVD, oedd yn copïo darnau prin o sioeau teledu, yn pledio'n euog i werthu DVDs

ffug. Clywodd gwrandawiad Enillion Troseddau yn Llys y Goron iddo ennill mwy na £400,000 o'i sgâm dwyllodrus.

Cyfaddefodd gwerthwr ar-lein oedd yn gwerthu dillad ffug i gwsmeriaid am ddegfed ran o bris y dilledyn gwreiddiol i wyth cyhuddiad. Bydd ymchwiliad Enillion Troseddau yn y misoedd i ddod.

Rhoddwyd rhybudd i fodurdy oedd yn hysbysebu dau bris am yr un cerbyd - rhai ar-lein a rhai mewn hysbysebion wedi'u hargraffu -am hyrwyddo cerbydau gyda phrisoedd camarweiniol.

Mae ymgyrchoedd lleol bob amser yn cael eu cynnal yn y cefndir i gadw cwsmeriaid yn ddiogel a gall unrhyw un sy'n dod o hyd i sgamiau masnach gael cyngor trwy wasanaeth cwsmeriaid Cyngor ar Bopeth ac ar wefan y Cyngor yn **www.newport.gov.uk/tradingstandards**



Arbedwch amser
Ewch ar-lein

Adrodd, Gofyn, Talu ac Olrhain
Gwasanaethau'r Cyngor ar unrhyw adeg
www.newport.gov.uk

Save time
Go online

Report, Request, Pay & Track
Council services at any time
www.newport.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

NADOLIG LLAWEN GAN ARWEINYDD A MAER CASNEWYDD

Hoffwn ddweud Nadolig Llawen i bob dinesydd, busnes ac ymwelwr yng Nghasnewydd.

Mae eto wedi bod yn flwyddyn lawn digwyddiadau i Gasnewydd. Mae nifer o ddigwyddiadau gwych wedi'u cynnal - i mi, yr uchafbwynt oedd Gemau Trawsblaniad Prydain lle ymwelodd miloedd o athletwyr ysbrydoledig â'n dinas.

Er na fydda' i wrth y llyw ddim mwy, rwy'n hyderus y bydd Casnewydd yn parhau i ffynnu yn 2020. Bydd projectau allweddol yn dwyn ffrwyth gan gynnwys gwesty pedair seren yng nghanol y ddinas a chartrefi newydd ar hen safle tafarn yr Hornblower, gan fywiogi ardal flaenorol Commercial Street oedd wedi'i hesgeuluso.

Nadolig Llawen
Councillor Debbie Wilcox
Leader of the council

Ers dod yn Faer Casnewydd ar ddechrau'r flwyddyn, rwy wedi fy syfrdanu gan yr hoffter sydd gan bawb rwyf wedi cael y pleser o gwrdd â nhw.

Rwyf wedi ymdrechu i fynychu cymaint o ddigwyddiadau a chwrdd â chymaint o ddinasyddion â phosibl dros y misoedd diwethaf ac rwyf â chynlluniau mawr ar gyfer gweddill fy nghyfnod yn y swydd.

Fy her i bawb yn 2020 yw 'Meiddio Breuddwydio - byddwch yn uchelgeisiol, byddwch yn garedig a chyfathrebwch - gyda'n gilydd gallwn ni wir wneud i'n dinas ffynnu.

Hoffwn i ddymuno Nadolig Llawen iawn i chi ac edrychaf ymlaen at 2020.

Y Cynghorydd William
J Routley Maer Casnewydd

CASGLIADAU GWASTRAFF GWYRDD

Bydd casgliadau gwastraff gwyrdd (biniau â chloriau oren) yn stopio ar gyfer y gaeaf ar ddiwedd mis Tachwedd.

Mae hyn yn golygu y bydd y casgliadau olaf rhwng 18 a 29 Tachwedd (yn dibynnu ar eich diwrnod casglu).

Wedyn bydd casgliadau gwastraff gwyrdd yn ailddechrau ym mis Mawrth gyda'r rownd gyntaf yn dechrau 2 Mawrth 2020, ond cadarnhewch eich dyddiad casglu ar-lein yn nes at yr amser - **www.newport.gov.uk/waste**

Yn ystod y cyfnod hwn, gellir mynd â gwastraff gwyrdd i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) yn Docks Way am ddim. Gellir rhoi blodau wedi'u torri yn y cadis gwastraff bwyd gyda'r bwyd gwastraff.

Bydd oriau agor hwyr ar ddydd Iau yn y CAGC yn dod i ben ddydd Iau 28 Tachwedd, gyda chyfnod oriau agor hwyr yr haf yn cael ei hysbysebu yn nes at yr amser.

Casgliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd
Bydd Wastesavers a Chyngor Dinas Casnewydd yn gohirio casgliadau bin ac ailgylchu Ddydd Nadolig a Dydd Calan gyda rhai casgliadau'n digwydd ddiwrnod yn hwyrach fel a ganlyn:

* **Dydd Llun 23 Rhagfyr:** casgliadau fel arfer
* **Dydd Mawrth 24 Rhagfyr:** casgliadau fel arfer
* **Dydd Mercher 25 Rhagfyr:** dim casgliadau - bydd casgliadau preswylwyr ddydd Iau 26 Rhagfyr
* **Dydd Iau 26 Rhagfyr:** diwrnod yn hwyrach - bydd casgliadau preswylwyr ddydd Gwener 27 Rhagfyr
* **Dydd Gwener 27 Rhagfyr:** diwrnod yn hwyrach –bydd casgliadau preswylwyr ddydd Sadwrn 28 Rhagfyr
* **Dydd Llun 30 Rhagfyr:** casgliadau fel arfer
* **Dydd Mawrth 31 Rhagfyr:** casgliadau fel arfer
* **Dydd Mercher 1 Ionawr 2020:** dim casgliad - bydd casgliadau preswylwyr ddydd Iau 2 Ionawr
* **Dydd Iau 2 Ionawr**: diwrnod yn hwyrach - bydd casgliadau preswylwyr ddydd Gwener 3 Ionawr
* **Dydd Gwener 3 Ionawr:** diwrnod yn hwyrach - bydd casgliadau preswylwyr ddydd Sadwrn Ionawr